

SICRHAU Y GALL POB DYSGWR FANTEISIO AR Y CWRICWLWM LLAWN - CRYNODEB O'R CYNIGION

- Mae Cymru yn mynd i gael cwricwlwm newydd. Mae'n cael ei lunio gan athrawon Cymru.
- Mae pob rhan o'r cwricwlwm newydd yn bwysig, ac mae pob rhan yn angenrheidiol er mwyn i ddysgwyr adael yr ysgol wedi cael addysg eang a chytbwys.
- O dan y cwricwlwm presennol, gall rhieni atal eu plentyn rhag mynd i wersi Addysg Grefyddol ac addysg rhyw¹.
- O dan y cwricwlwm newydd, bydd addysg rhyw yn cael ei disodli gan Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol yn orfodol i bob plentyn 3-16 oed.
- Credwn na ddylai rhieni fedru atal eu plant rhag mynd i'r gwersi hyn yn y dyfodol.
- Y rheswm am hyn yw bod Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn bwysig iawn i gadw plant yn ddiogel a'u helpu i ddeall y byd o'u cwmpas.
- Rydym yn deall bod gan bobl bryderon o bosib.
- Rhaid i'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi yn y gwersi hyn fod yn briodol ar gyfer oedran, datblygiad a chefnidir y plentyn.
- Rydym yn gofyn am sylwadau ynghylch beth fyddai'n ei olygu i rieni, dysgwyr ac ysgolion pe bai rhaid i bob dysgwr fynd i wersi Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd.
- Rydym hefyd yn gofyn am sylwadau ynghylch a ddylid ymestyn ystod oedran Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i 3-16.
- Rydym hefyd yn gofyn am sylwadau ynghylch ai Addysg Grefyddol yw'r enw gorau o hyd ar gyfer y maes hwn.
- Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ein cynigion ac anfon eich sylwadau at y Llywodraeth drwy lenwi'r ffurflen hon [[dolen](#)]

Dyma grynodeb o'n cynigion - mae'r manylion llawn yn y ddogfen ymgynghori [[dolen](#)] ar wefan Llywodraeth Cymru.

¹Ceir esboniad pellach o'r ddeddfwriaeth bresennol yn y maes hwn yn y ddogfen ymgynghori [[dolen](#)]